

LLWYBRAU LLWYDDO

CYLCHLYTHRY GARFAN CYFLOGAETH, ADDYSG A HYFFORDDIANT

RHIFYN COVID-19

Yn ystod y cyfnod ansicr gyda COVID-19, mae'r Garfan Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant wedi bod yn archwilio ffyrdd gwahanol o weithio i sicrhau ein bod ni'n parhau i gadw mewn cysylltiad â'r holl bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw a pharhau i gyflawni ein rhaglenni.

RECRIWTIO PRENTISIAID A GRADDEDIGION

Mae ein proses recriwtio eleni yn mynd i fod yn wahanol gan fod y Cyngor yn dal i flaenoriaethu'i weithrediadau COVID parhaus. Rydyn ni'n hysbysebu ein cynllun mewn tri chyfnod dros weddill y flwyddyn galendr. **Mae cyfleoedd ar gael gyda ni! Gwnewch gais nawr ar ein gwefan www.rctcbc.gov.uk.**

Cliciwch isod i weld fideo llawn gwybodaeth am ein proses recriwtio tri chyfnod a gwybodaeth fanwl ar gwblhau ein ffurflenni cais sy'n seiliedig ar gymwyseddau:



LLWYDDO YN YSTOD ADFYD

Er gwaethaf yr ansicrwydd yn ystod COVID-19, rydyn ni wedi cynnal ein fframweithiau hyfforddi trwy addasu gweithdrefnau i gefnogi dysgu o bell sydd wedi galluogi ein prentisiaid a'n graddedigion i barhau i weithio tuag at eu cymwysterau. Mae hyfforddiant a gweithdai wedi cael eu cynnal ar Teams, gyda darparwyr hyfforddiant a'r Garfan Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant wrth law i gefnogi. Mae'r rheiny roedd disgwyl iddyn nhw gwblhau eu prentisiaethau/rhaglenni i raddedigion eleni ar y trywydd iawn i wneud hynny, er gwaethaf y cyfnod anodd rydyn ni'n ei wynebu.

PRENTIS RHCT YN CEFNOGI YMATEBION BLAENORIAETH Y CYNGOR I'R PANDEMIG COVID-19

Ymunodd Katie Ennis â Chynllun Prentisiaethau RhCT ym mis Medi 2019 fel Prentis Cymorth i Fusnesau y Gwasanaeth Cymunedol. Eleni, mae hi wedi chwarae rôl hanfodol yn ei charfan trwy ymateb i anghenion ein cymunedau yn ystod Storm Dennis ac yn fwy diweddar, y pandemig Covid-19.

Ym mis Chwefror, tarodd Storm Dennis RCT gan achosi difrod helaeth. Roedd Katie yn delio ag ymholiadau dros e-bost gan y cyhoedd a oedd eisiau gwirfoddoli a rhoi bwyd neu ddillad. Aeth hi drwy alwadau ffôn ac e-byst yn delio â cheisiadau am grantiau. Cysylltodd hi â nifer o archfarchnadoedd mawr a roddodd fwyd ac eitemau eraill i'r apêl llifogydd, gan ddarparu pwynt cyswllt, cymorth a chyngor cyffredinol, gwerthfawr i drigolion.

Yn fwy diweddar, cafodd Katie y dasg o roi cymorth yn ystod Covid-19. Mae Katie wedi bod yn cydweithio â dros 100 o aelodau o staff bob dydd sydd wedi bod yn helpu i gysylltu â thrigolion yn RhCT sy'n gwarchod ar hyn o bryd. Mae'r staff yma wedi bod yn cynnig cymorth hanfodol i'n trigolion mwyaf agored i niwed. Mae Katie wedi bod yn allweddol i lwyddiant y gwaith yma. Mae hi wedi bod yn casglu manylion yr holl gartrefi y mae angen parseli bwyd Llywodraeth Cymru arnyd nhw a rhoi'r wybodaeth yma i Lywodraeth Cymru bob dydd. Ar ôl i'r parseli bwyd gael eu dosbarthu, mae Katie wedi gwneud yn siŵr bod yr holl drigolion sydd wedi nodi angen wedi cael galwad

ffôn i sicrhau eu bod wedi derbyn parsel bwyd. Dyma dasg enfawr arall.

[Dyma adborth a dderbyniwyd gan Ganolfan Alwadau RhCT:](#)

"Hoffwn i a'm gwraig ddiolch i Wasanaethau RhCT am ddarparu pwynt cyswllt a chynnig cymorth yn ystod y pandemig yma. Am wasanaeth gwych rydych chi'n ei ddarparu yn ystod y cyfnod yma. Galwadau ffôn bob wythnos, parseli bwyd a chynnig cymorth gyda phresgripsiynau, ac ati. Mae galwad ffôn yn gwneud cymaint o wahaniaeth ac i bobl sydd ar eu pennau eu hunain, rydw i'n tybio bod hyn yn hanfodol iddyn nhw. Mae'n gwneud i chi deimlo'n falch o fod o Gymru ac yn byw yn RhCT. Diolch yn fawr eto."

Da iawn Katie, gwaith gwych – rydyn ni'n cydnabod eich gwaith!



Katie Ennis, Prentis Cymorth i Fusnesau y Gwasanaeth Cymunedol

GATSBY – Y DIWEDDARAF

Gyda disgyblion bellach yn dysgu gartref o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, roedd hi'n bwysig datblygu fersiwn o'r Meincnodau Gatsby sy'n cefnogi'r ffordd mae disgyblion yn dysgu ar hyn o bryd. Mae'r Rheolwr Meincnod Gatsby, Kate Owen, wedi cydweithio â'r Garfan Addysg i rannu fersiwn 'cyfyngiadau symud' o'r meincnodau. Yna, bydd ystod o adnoddau yn cael eu darparu er mwyn i ysgolion eu defnyddio i gefnogi chwilfrydedd disgyblion a chynllun gyrfaedd tra eu bod nhw gartref.

Mae meincnodau Gatsby yn gyfres o 8 canllaw sy'n datblygu cynlluniau gyrfaedd personol disgyblion. Maen nhw'n sicrhau bod gan ddisgyblion blwyddyn 7 i 13 gyfle i ddysgu gan gyflogwyr a gweithwyr a deall yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ar ôl 16 oed. Does dim modd i'r meincnodau cyfyngiadau symud gymryd lle'r meincnodau wyneb yn wyneb â chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant. Mae modd iddyn nhw sicrhau bod disgyblion yn dysgu o hyd ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r dewisiadau a chyfleoedd byddan nhw, o bosibl, yn eu dewis yn y dyfodol.

Mae ystod eang o brofiadau a chyfleoedd rhithwir i ddisgyblion ddysgu am y byd gwaith gartref. Mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau bod y rhain wedi'u canolbwyntio ar elfennau'r meincnodau fydd yn helpu disgyblion i ddeall y newidiadau sylweddol i'r farchnad lafur a'r effaith y bydd yr argyfwng Covid-19, o bosibl, yn ei chael ar eu cynlluniau gyrfaedd yn y dyfodol.

Aeth y Rheolwr Meincnod Gatsby, Kate Owen, i gwrdd â Kirsty Williams, Y Gweinidog Addysg, i rannu gwaith y peilot Meincnodau Gatsby yn RhCT ar 28 Ebrill. Canmolodd y Gweinidog waith y peilot ac, yn bennaf, barhad y gwaith yn ystod yr argyfwng Covid-19.

Bydd ein fersiwn "cyfyngiadau symud" o'r Meincnodau Gatsby yn cael ei rhannu ag awdurdodau lleol eraill a bydd amlinelliad o'n gwaith diweddar yn cael ei gynnwys mewn erthygl wedi'i hysgrifennu ar gyfer y cylchgrawn misol cenedlaethol Career Development Institute ym mis Mehefin.

RHAGLEN ADDYSG GYRFAOEDD A'R BYD GWAITH

Mae'r Garfan Addysg wedi bod yn brysur yn llunio cynnwys digidol i sicrhau bod modd i ddisgyblion, rhieni ac athrawon ledled RhCT barhau i fanteisio ar addysg sy'n gysylltiedig â gyrfaedd, a'i darparu.

Wrth weithio'n agos gyda ein carfanau'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuentid a Wicid, rydyn ni wedi creu rhan benodol ar wefan Wicid.tv ar gyfer pynciau Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant. Mae'r fideo cyntaf wedi mynd yn fyw ac mae'n cynnig cyngor ar ateb cwestiynau sy'n seiliedig ar gymwyseddau yn ystod ceisiadau ac ymweliadau gan ddefnyddio'r dull 'STAR'. Bydd hyn yn bennaf ddefnyddiol i unrhyw un sy'n bwriadu gwneud cais am unrhyw un o brentisiaethau Cyngor RhCT.

Mae'r garfan hefyd wedi bod yn paratoi ac yn dosbarthu cyfres o adnoddau bob pythefnos i ddisgyblion CA2 hyd at ôl-16 oed, i athrawon, rhieni a'n disgyblion sydd ag Anableddau ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae'r pecynnau adnoddau wedi cynnwys profiadau gwaith rhithwir, ymweliadau rhithwir â gweithleoedd, storiâu cymdeithasol ac ystod o syniadau i gefnogi rhieni ac athrawon yn ystod y cyfnod llawn straen heb ei debyg.

Rydyn ni hefyd wrth ein boddau i gyhoeddi y bydd ein Gwobr Cyflawniad Cadarnhaol yn mynd rhagddi ar gyfer y flwyddyn academaidd yma er gwaethaf y cyfyngiadau symud a'r heriau mae'r cyfnod yma wedi'u cyflwyno i'n hysgolion a'u disgyblion. O ganlyniad i'r amgylchiadau, bydd ffigyrau presenoldeb disgyblion yn cael eu hystyried hyd at yr wythnos sy'n gorffen ar 14 Chwefror 2020. Bydd hyn yn cynnwys ein gwobr Efydd, sydd yn ei blwyddyn gyntaf, i ddisgyblion blwyddyn 6.

I fanteisio ar ein hadnoddau a fideo'r garfan, cliciwch isod



CAMU I'R CYFEIRIAD CYWIR

SARAH HITCHINGS

Gweithiwr dan Hyfforddiant – Camu i'r Cyfeiriad Cywir



*Gweithiwr dan hyfforddiant, Sarah Hitchings
yn gweithio trwy gydol yr argyfwng Covid-19.*

Mae Sarah wedi bod ar leoliad yng Nghartref Gofal Ystrad Fechan ers mis Medi ac mae wedi bod yn gweithio trwy gydol yr argyfwng Covid-19 ochr yn ochr â'i chydweithwyr yn y cartref gofal. Cwblhaodd Sarah ei hyfforddiant sefydlu ym maes Gofal Cymdeithasol a bydd hi'n dechrau ar ei fframwaith cymhwyster craidd cyn bo hir. Mae Sarah wedi magu perthnasau gwaith cadarnhaol gyda thrigolion a staff ac mae'n frwdfrydig am ddilyn gyrfa ym maes Gofal Cymdeithasol.

Diolch yn fawr Sarah, rydyn ni i gyd yn gwerthfawrogi'ch ymrwymiad a'ch gwaith caled yn ystod y cyfnod anodd yma!

GofaliWaith

Yn ystod y cyfyngiadau symud presennol, mae'r garfan GofaliWaith wedi ceisio pennu ffyrdd o barhau i gynnig cymorth i'r bobl ifainc hynny sy'n dymuno manteisio ar y Rhaglen GofaliWaith.

Mae GofaliWaith eisiau pobl ifainc i wybod bod modd i ni eu cefnogi nhw o hyd er gwaethaf y ffaith nad oes modd i ni eu gweld nhw ar hyn o bryd. Mae GofaliWaith, mewn partneriaeth â Gyrfaoedd Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant a'r rhaglen Byd Gwaith, wedi rhoi nifer o fideos at ei gilydd sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd o ran gwneud cais am swyddi.

Mae modd gweld y rhain ar wefan Wicid RhCT <https://www.wicid.tv> sef gwefan gwybodaeth a chyfryngau i ieuencid wedi'i chreu gan bobl ifainc yn RhCT. Mae'r wefan ar gael trwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg.

Cliciwch isod.



Gweler dolenni fideos GofaliWaith isod:

Fideo cadw mewn cysylltiad. Cliciwch isod.



Fideo Cyfweiliad Rhithwir. Cliciwch isod.



Mae GofaliWaith yn parhau i weithredu a derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifainc sy'n dymuno datblygu eu hyder a sgiliau ochr yn ochr â'u hanghenion cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

Mae rhaglen GofaliWaith wrthi'n datblygu ei chlwb swyddi wythnosol trwy blatfform rhithwir fel bod cymorth o ran ysgrifennu CV, gwneud cais am swydd a chyfweiliadau swydd yn parhau i ddiwallu disgwyliadau pobl ifainc sydd eisiau cymorth yn ystod y cyfnod heb ei debyg yma.

GofaliWaith

ABBY EVANS

Daeth Abby Evans o hyd i swydd yn ystod COVID-19



Abby Evans, Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae Abby Evans wedi bod yn rhan o raglen GofaliWaith ers mis Medi 2019. Yn ystod y cyfyngiadau symud diweddar, mae hi wedi bod yn awyddus i ddod o hyd i swydd. Ar ôl cyflwyno cais am swydd a chyfweiliad dros y ffôn, mae hi wedi llwyddo i sicrhau swydd mewn lleoliad gofal yng Nghaerdydd. Roedd GofaliWaith yn fodlon darparu geirda personol ar gyfer Abby. Mae'r daith i'w gweithle yn cynnwys dal dau fws sy'n cymryd dros awr o'i chartref yn RhCT. Mae Abby yn hapus i wneud hyn gan ei bod hi'n mwynhau ei swydd newydd ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn fawr. Mae'r swydd hefyd wedi cynyddu ei hyder.

Mae Abby'n astudio ochr yn ochr â'i swydd, ac mae wrthi'n cwblhau cwrs hyfforddi gyda Llamau. Ei nod hirdymor yw cyflawni ei chymwysterau gofal plant a gweithio mewn meithrinfa. Da iawn Abby a diolch am eich ymrwymiad a gwaith caled yn ystod y cyfnod anodd yma!

Rhaglen Interniaeth â Chymorth 'Engage to Change: Gateway to Employment'



Interniaethau â Chymorth Engage to Change Gateway to Employment

Mae'r rhaglen yn bartneriaeth amlasiantaeth rhwng Cyngor RhCT, Coleg y Cymoedd, Anabledd Dysgu Cymru, Engage to Change ac Elite Supported Employment. Mae'r interniaeth â chymorth wedi rhoi profiad gwaith i unigolion ar draws amrywiaeth o adrannau Cyngor RhCT i ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â'r gwaith i'w helpu nhw i sicrhau cyflogaeth.

TOMOS CHURCHILL

Intern â Chymorth 'Gateway to Employment'



Tomos Churchill Intern â Chymorth

Mae Tomos Churchill yn intern â chymorth ym Mharc Ynysangharad Pontypridd ac mae wedi rhannu ei brofiad â ni – 'Rydw i wedi dysgu cymaint gan aelodau'r garfan rydw i wedi bod yn gweithio gyda nhw, gan ddysgu am y mathau o flodau, planhigion a bywyd gwylt. Rydw i hefyd wedi teimlo'n rhan o'r garfan ac wedi cael y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o offer megis peiriannau chwythu dail i gadw'r parc yn lân ac yn daclus. Yn anffodus, o ganlyniad i ddifrod y llifogydd yna COVID-19, doedd dim modd i fi gwblhau fy lleoliad gan fod rhaid i'r parc gau. Rydw i'n edrych ymlaen at ddychwelyd i'r parc ar ôl i bethau fynd yn ôl i'r arfer'.

TORRI'R CYLCH

Trwy weithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, Ian Davies yw deiliad lleoliad cyntaf yr Awdurdod Lleol o ran cynllun Torri'r Cylch. Ar ôl newid ei gefndir troseddol, cafodd Ian ei gydnabod yn ddeiliad cymwys y cynllun ym gan Swyddog Rheoli Integredig Troseddwy'r Heddlu De Cymru. Mae Ian wedi cael lleoliad yn Nhŷ Glantaf yn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff ers mis Mawrth eleni.

Dyma ddull amlbartneriaeth sy'n cynnwys Cymunedau am Waith a Mwy yr awdurdod, y Garfan Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant, Gwasanaethau Rheoli Gwastraff a Charfan Rheoli Integredig Troseddwy'r Heddlu De Cymru.

Wrth i gyfnod Ian yn rhan o gynllun Torri'r Cylch ddod i ben ym mis Mehefin, o ganlyniad i'w ymrwymiad ac ethig gwaith gwych trwy gydol argyfwng Covid-19, mae wedi llwyddo i sicrhau gwaith asiantaeth yn Nhŷ Glantaf.


Llongyfarchiadau Ian a diolch yn fawr!

AR Y GWEILL

Mae'r garfan bob amser yn edrych ar ffyrdd arloesol o barhau i gyflawni ein holl raglenni yn ystod y cyfnod ansicr yma.

Cadwch lygad barcud allan am y canlynol fydd ar gael cyn bo hir:

- Profiad Gwaith Rhithwir
- Ffair Swyddi Rhithwir
- Clwb Swyddi GofaliWaith Rhithwir

Am ragor o wybodaeth neu os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am unrhyw un o'n rhaglenni, e-bostiwch  CarfanCyflogaethAddysgHyfforddiant@rctcbc.gov.uk

leithoedd a diwyg eraill ar gael drwy ofyn

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.